

No.

PWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 21 Medi. 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.W. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, J.E. Charles, V.P. Driscoll, O. Griffiths, K.F. McCaffer, M.J.G. Morgan, J.M. Norman, R. Nugent-Finn, S.T. Wiliam, M.R. Wilkinson and M. Wright.

372 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

373 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr R. Crowley a A. Moore.

374 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

375 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

376 ADOLYGIAD O'R DATGANIAD O'R EGWYDDORION GAMBLO DEDDF 2005 2022-2025 (CAT) –

Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu adroddiad i'r Pwyllgor ar yr ymgynghoriad statudol sydd ei angen i adnewyddu'r Datganiad Egwyddorion uchod cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol.

Roedd Adran 349 o Ddeddf Gamblo 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod trwyddedu gyhoeddi Datganiad Egwyddorion sy'n llywodraethu ei bolisi trwyddedu am gyfnod o dair blynedd. Daeth y Datganiad presennol i ben ar ddiwedd 2021.

No.

Amlinellodd yr adroddiad y broses adolygu ac adnewyddu ar gyfer 2022-2025 gan adrodd yn ôl ar yr ymgynghoriad statudol.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y broses ragnodedig i gyhoeddi'r Datganiad Egwyddorion nesaf gan gynnwys atgyfeiriadau i'r Cabinet, ac yn olaf y Cyngor i'w fabwysiadu.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, fe'i

PENDERFYNWYD - Y dylid datgan y Datganiad o Egwyddorion Deddf Gamblu 2005 sydd ynghlwm yn Atodiad A i gael sylwadau i'r Cabinet ar 8 Tachwedd 2021 ac yna eu cyfeirio at y Cyngor i'w cymeradwyo ar 6 Rhagfyr 2021.

Rheswm dros y penderfyniad

Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol fel awdurdod trwyddedu. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu, wrth gyflawni ei swyddogaethau, roi sylw i'r amcanion trwyddedu:

- Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd
- Sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored
- Amddiffyn plant a phobl agored i niwed eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan gamblo